



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



---

**Sut i Lenwi Llyfr Log Papur:**  
Canllaw cyflym am y brif wybodaeth  
sydd ei hangen ar lyfrau log papur

---

# 1

## Dyddiadau ymadael

- Rhaid ei lenwi bob tro y byddwch yn gadael y porthladd, hyd yn oed os nad ydych yn mynd i bysgota
- Rhaid datgan y dyddiad a'r amser a'r porthladd rydych yn ei adael
- Rhaid datgan y gêr a'r ddalfa sydd ar y cwch wrth ymadael
- Rhaid rhoi manylion cywir meistr y trip (enw llawn a chyfeiriad)

# 2

## Gwybodaeth am eich gweithgareddau pysgota dyddiol

- Rhaid ei lenwi bob dydd ar gyfer pob trip pysgota cyn 23:59 – hyd yn oed os nad oes dalfa i'w datgan
- Rhaid llenwi llinell newydd ar gyfer pob dydd ac wrth groesi/mynd i mewn/gadael ardaloedd ymdrech
- **Rhaid dangos<sup>1</sup>:** dyddiad, nifer gweithrediadau pysgota, arwynebedd y ddalfa ar y môr (gan gynnwys yr hirsghwar ystadegol)
- Rhaid cofnodi'r ddalfa fel ag yn 'gwybodaeth am y ddalfa'
- Rhaid llenwi dalen log newydd ar gyfer pob math o gêr a ddefnyddir ar yr un trip

# 3

## Gwybodaeth am y ddalfa n

- Rhaid datgan yr holl ddalfa ar y cwch sydd dros 50kg pwysau byw
- Rhaid cofnodi beth sydd wedi'i daflu yn ôl i'r môr
- Rhaid cofnodi pysgod sy'n rhy fach yn unol â'r rhwymedigaeth glanio
- **Ar gyfer pob rhywogaeth, rhaid datgan:** Cod y rhywogaeth, Pwysau fesul uned, Cyfanswm nifer yr unedau/cyfanswm y pwysau a gadwyd
- Dylid cofnodi'r pwysau fel pwysau byw mewn kg'au

# 4

## Gwybodaeth wrth dychwelyd i'r Porthladd

- Rhaid ei llenwi pan fyddwch chi'n dychwelyd i'r porthladd ar ôl pob trip
- Rhaid datgan y dyddiad a'r amser dychwelyd a'r porthladd
- Os ydych yn glanio ym mhorthladd pen eich taith, rhaid rhoi'r taflenni log ym mlwch postio'r Llyfr Log, neu i'r Swyddog Gorfodi Morol cyn ichi lanió'ch dalfa.

<sup>1</sup> Gan ddibynnu ar ble a sut yr ydych yn pysgota, efallai y gofynnir ichi gyflwyno rhagor o wybodaeth ar eich llyfr log, er enghraifft pa mor ddwfn yr ydych yn pysgota neu faint eich gêr. Am ragor o wybodaeth, siaradwch â'ch Swyddog Gorfodi Morol lleol neu Ganolfan Monitro Pysgdofeydd Cymru ar [milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales](mailto:milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales) neu 0300 025 3500.

# 5

## Datgan eich Dalfa

- Rhaid datgan pob dalfa sy'n cael ei glanio ar ôl pob trip
- Rhaid gyflwyno'r datganiad o fewn 48 awr ar ôl glanio dalfa
- Gall y meistr neu ei gynrychiolydd wneud
- Rhaid cofnodi dyddiad, amser a'r porthladd glanio (os yw'n wahanol i'r porthladd dychwelyd)
- Rhaid cofnodi pob rhywogaethau a'r pwysau a laniwyd – hyd yn oed os na fyddwch yn eu gwerthu
- Rhaid cofnodi popeth o dan y maint lleiaf ar wahân